Sadhu Sundar Singh: 1889-1929

Taflu'r Testament i'r tân

Dewrder / gonestrwydd

Ydych chi wedi clywed am grefydd y Sikh? Crefydd sy'n perthyn i India yw hon. Mae'r stori hon yn sôn am Sundar oedd yn aelod o grefydd y Sikh.

Bob dydd byddai Sundar yn mynd i'r ysgol. Ysgol oedd hon wedi ei chodi gan genhadon Cristnogol. Yn y gwasanaeth bob bore byddai'r athro yn darllen o'r Beibl.

"Rwyf am i chi ddilyn y stori yn eich copi o'r Testament Newydd," meddai'r athro wrth y plant. Darllenodd yntau'r stori a'r plant yn ei ddilyn air am air. Ar ôl i'r gwasanaeth orffen, aeth pob un i'w ddosbarth. Yn ystod amser chwarae fe aeth Sundar â chopi o'r Testament Newydd gydag ef ac meddai wrth y plant,

"Pam y dylwn i ddarllen hwn? Aelodau o grefydd y Sikh ydyn ni a'r Granth ydi'n llyfr sanctaidd ni." Cafodd gymeradwyaeth fawr gan ei ffrindiau i gyd. Torrodd y Testament Newydd yn ddarnau a lluchio'r tudalennau i'r tân. Clywodd tad Sundar am yr hyn a ddigwyddodd yn yr ysgol.

"Ydi'r hyn rydw i wedi'i glywed amdanat ti yn wir, Sundar?" gofynnodd. Ni wyddai Sundar ble i edrych.

"Mae'r Testament Newydd yn llyfr da, wyddost ti. Fe ddylet ti fod wedi ei roi yn ôl i'r athro yn hytrach na'i losgi."

Yn wir, roedd Sundar yn Sikh i'r carn. Roedd yn casáu enw Iesu Grist hyd yn oed. Roedd yn casáu yr athrawon yn yr ysgol am eu bod yn Gristnogion. Un noson, pan oedd Sundar ar ei ben ei hun yn ei ystafell fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd. Gwelodd Iesu yn sefyll wrth ei ymyl.

"Pam rwyt ti yn f'erbyn i, Sundar?" meddai. "Rydw i wedi marw ar y groes drosot ti." Y munud hwnnw fe ddaeth Sundar yn Gristion. Teimlodd yn hapus iawn o'r munud hwnnw.

Dywedodd y stori wrth ei dad. Roedd o'n gandryll. "Fedri di o bawb ddim bod yn Gristion. Ti ydi Sundar Singh, y llew. Elli di byth fod yn Gristion."

"Mae'n rhaid i mi ddilyn Iesu," atebodd Sundar. Bu'r teulu yn ymbil ar Sundar i aros gyda'u crefydd nhw – crefydd y Sikhiaid. Daeth ewythr cyfoethog i'w weld. Aeth ag ef gydag ef i'w gartref,

"Mae popeth sydd gen i yn y tŷ yma yn eiddo i ti, os gwnei anghofio am yr hen syniad gwirion yna o fod yn Gristion. Fe gei di fy

arian a'r dodrefn yma i gyd."

Na, doedd dim yn tycio. Roedd Sundar am ddilyn Iesu Grist. Cafodd ei ddiarddel gan ei deulu. Cafodd ei bryd bwyd olaf gyda nhw ac i ffwrdd ag ef i gael ei fedyddio i ganolfan Gristnogol yr ardal. Pan oedd ar ei ffordd teimlodd yn sâl. Mae'n amlwg fod ei deulu wedi rhoi gwenwyn yn ei fwyd. Doedd ei deulu ddim eisiau iddo ddod yn Gristion, gwell fyddai ganddyn nhw iddo farw na dilyn Iesu Grist.

Trwy garedigrwydd teulu o Gristnogion daeth yn well, a phan oedd yn un ar bymtheg oed fe'i bedyddiwyd. Am weddill ei ddyddiau byddai'n cerdded o bentref i bentref â'r Beibl yn ei law yn sôn am Iesu. Ar ôl bod yn pregethu mewn un pentref, cafodd ei ddal a'i garcharu efo dynion drwg. Cyn pen dim, roedd yn sôn am Iesu wrth ei gyd-garcharorion. Cychwynnodd ar daith i ardaloedd anghysbell yn Tibet i sôn am Iesu. Ond ddaeth o byth yn ôl. Welwyd mohono byth wedyn.

"Sut y ceidw llanc ei lwybr yn lân? Trwy gadw dy air di."

Salm 119:9

O Dduw annwyl,
gwna i mi feddwl
am yr hyn yr ydw i'n ei wneud
gyda fy meddwl
gyda fy nghorff
gyda fy arferion
gyda fy astudiaethau
gyda fy ffrindiau
gyda fy ngobeithion
gyda fy rhieni
gyda fy ffydd
gyda bywyd.
Amen.

(Carl Burke)

Beth ddylai agwedd y Cristion fod tuag at grefyddau eraill?

Sadhu Sundar Singh: 1889–1929